Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

27.02.23

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Dydd Gŵyl Dewi – Gan y byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Dewi ar Fawrth y 1af, gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol mewn gwisg sydd yn dathlu ei Cymreictod. Gall hyn fod yn grys rygbi neu bêl-droed Cymru, neu wisg draddodiadol Cymreig.

Diwrnod y Llyfr – Gan y byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr ar ddydd Iau, Mawrth yr 2ail, bydd cyfle i'r plant ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel un o gymeriadau o lyfr y maent wedi ei ddarllen. Byddai hefyd yn wych pe byddai'r plant yn gallu dod a'r llyfr gyda nhw i'r ysgol er mwyn cael rhannu ychydig o wybodaeth am y cymeriad gyda gweddill y dosbarth. Bydd y plant hefyd yn derbyn llyfr i'w fwynhau fel rhan o gynllun Caru Darllen Llywodraeth Cymru.

Lluniau Ysgol - Bydd cwmni Tempest yn yr ysgol ar Ddydd Llun, Mawrth 13eg i dynnu lluniau'r disgyblion.
Oherwydd amser cyfyngedig, nid ydynt ar hyn o bryd yn gallu cynnwys lluniau o frawd neu chwaer sydd mewn ysgol arall neu sydd heb gychwyn ysgol eto. Bydd lluniau o frodyr a chwiorydd sydd yn yr ysgol yn cael ei wneud yn ystod y dydd a hefyd llun dosbarth Blwyddyn 6.
Bydd gennych y dewis o archebu neu beidio archebu unrhyw luniau a gymerir.

Dyma rai dyddiadau eraill i chi ar gyfer eich dyddiaduron:

11.03.23 – Eisteddfod Cylch yr Urdd
13.03.23 – Lluniau ysgol
13.03.23 – Nosweithiau Rhieni
14.03.23 – Eisteddfod offerynnol yr Urdd
17.03.23 – Diwrnod Trwyn Coch(Thema'r dydd fydd 'Gwenu a Chwerthin')
21.03.23 – Eisteddfod Ddawns yr Urdd
22.03.23 – Disgyblion blwyddyn 5 yn ymweld a Gwersyll yr urdd Llangrannog
25.03.23 – Eisteddfod Sir yr Urdd
01.03.23 – Diwedd Tymor – Ysgol yn cau am y Pasg.
17.04.23 - Diwrnodiau hyfforddiant i athrawon – ysgol ar gau i

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth